

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod : 06.05.2014
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol : Y Cyngorwyr ; Dylan Jones, Arwel Nicholas, Danny Davies, Wyn Thomas, Carolyn Smethurst, Malcolm Howells, Pamela Jones, Elfed Davies, Cynghorydd Sir, Irfon Jones
Ymddiheuriadau : Pawb yn bresennol

Rhif Agenda	Nodiadau/ Pendefyniadau	I'w weithredu gan
Cofnodion	Cynnigiwyd eu bod yn gywir gan WT, DD yn eilio	
Materion yn codi	<p>Llythyr Gorfodi: CS yn anfonol iawn fod mater llwyn Ty Nant yn parhau l lusgo mlaen ac am wybod a weithredwyd danfon y llythyr? IJ yn cyfarfod gyda John McEvoy Ddydd Gwener, trafodir y pwnc pryd hynny.</p> <p>Arwyddion Ffyrdd: Arwydd ger y bont wedi ei gywiro; gosod arwydd pen heol Nant yr Ynys mewn llaw ac hefyd yr arwydd gerllaw y Felin.</p> <p>Cadw Cofnodion: Clerc yn adrodd am ymateb Un Llais Cymru a'r SLCC fod modd cadw Cofnodion mewn ffeil, nid oes rhaid eu gludo mewn llyfr.</p> <p>Cyngorwyr yn trafod manteision/anfanteision yr opsiynau ac yn penderfynnu cadw at y drefn presennol.</p> <p>Carthion: Y Carmarthen Journal â diddordeb adrodd am drafferthion y pentref gyda carthffosiaeth</p> <p>CS am wahodd Dŵr Cymru l ddod l gyfarfod ac esbonio eu cynlluniau ar gyfer diwygio'r strwythur. Clerc l gysylltu gyda Dŵr Cymru a'u gwahodd l Gyfarfod.</p>	
Gohebiaeth	<p>Biniau Compost: Clerc l ofyn am l'r Cyngor Sir benodi lleoliad casglu'r biniau sydd yn nes l Llanpumsaint na Cross Hands</p> <p>Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau: Grantiau ar gael l gynorthwyo cymunedau wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr. CS am greu palmant heibio l'r Ficerdy a draw l gyfeiriad y Siop. IJ yn cynnig ceisio; pawb yn gytun.</p> <p>Trawslink Cymru: Menter sydd am ail agor y rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin ac yn gofyn am gefnogaeth cymunedau allai elwa ohonno. Y Cyngorwyr o blaid cefnogi'r fenter.</p> <p>Cadw'r Sir yn Daclus:Cymorth ar gael gan y Cyngor Sir. Angen rhywun o fewn y gymuned l arwain y fenter.</p> <p>Bandlydan: Gwybodaeth oddi wrth Simon Hart ynglyn a sut mae gwneud cysylltu gyda'r Wé yn gyflymach. CS yn annog pawb l fynd ar wefan Superfast Cymru a gofyn am 'optic fibres'.</p> <p>Fforwm Sirol – cyfarfod wedi bod</p>	

Tudalen Wé y Cyngor	Jeremy Clulow o Webs Wonder yn ymuno gyda'r Cyfarfod I ddisgrifio'r gwaith sydd wedi ei wneud I wefan Llanpumsaint er mwyn creu tudalen wé l'r Cyngor WT am mae'r Gymraeg yw iaith blaenllaw'r Dudalen I gytuno gyda'r Polisi Iaith. Angen gosod copi o Bolisi Iaith ar y dudalen	
Materion ariannol	Gwaith l'r Clerc I gwblhau ffurflen yr Arolwg.	
UFA	MH: Croesffordd Bronwydd; cyfrifoldeb Gwili Railway ynte y Cyngor Sîr? Mynedfa I safle Trîn Carthion Bont Newydd, wal floecs wedi cwmpo. Pwy sydd a chyfrifoldeb ei ail godi? PJ: Trafnidiaeth yn gyrru heibio l'r Cae Chwarae yn gyflym; pryd bydd arwyddion 20 mya yn cael eu codi? IJ I drafod y mater gyda John McEvoy Ddydd Gwener CS: Gan nad oes Defibrillator wedi ei osod yn y Blwch BT, beth am ei wneud yn Llyfrgell Fenthyca? WT yn awgrymu fod angen I rhywun gychwyn y fenter. Pawb yn gytun. CS I hysbysebu am wirfoddolwr yn Llais y Llan. Clerc I gysylltu gyda Yswiriant Zurich a thrafod y mater WT: Angen arwain dŵr y ffordd sydd yn cynrhoi tu flaen I Dyffryn/Minyffordd, I gyfeiriad Cilgwyn. DJ: Dim DD: Angen gwagio'r biniau ailgylchu ar un waith AN: Bin ailgylchu newydd wedi ei osod ar y maes parcio; wedi ei osod heb ganiatád. Angen cysylltu gyda'r Sîr Heol gerllaw Helfa Hall angen gwaith atgyweirio ar unwaith. Tai Bach; efallai y cawsant eu hail agor...!	
Cyfarfod yn gorffen	9.40	

Cafwyd yn gywir :	Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)	(Ysgriennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: